
## DECHRAU ARNI - CYFLWYNIAD I P3

Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu canllaw i'r fethodoleg P3 a ddatblygwyd ym Mangor yn 2015/16 gyda chyllid gan Gronfa Arloesi a Thrawsnewid y Sefydliad Arweinyddiaeth. Mae'n darparu fframwaith systematig i brojectau rheoli newid. Gellir addasu'r fethodoleg ar gyfer projectau ar raddfa fawr a bach ac i gyd-fynd ag amcanion a chyd-destun gwahanol fathau o brojectau. Canllaw yw'r ddogfen hon sy'n darparu pro fforma i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio eich project.

Un o brif flaenoriaethau P3 yw sicrhau eglurder canlyniadau arfaethedig project (perfformiad) a sicrhau bod amcanion y project wedi eu diffinio'n amlwg ac wedi eu hystyried yn llawn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posib. Mae P3 hefyd yn rhannu'r dadansoddiad i ddau ddosbarth, sef pobl a phrosesau. Mae'r rhain, wrth gwrs, yn gorgyffwrdd ac yn gydberthynol. Ond wrth eu gwahanu, mae'n gallu bod yn haws nodi a dadansoddi'r rhwystrau i lwyddiant.
Amcan cyffredinol P3 yw cysylltu'r elfennau hyn oll er mwyn sicrhau bod y project yn llwyddiannus. Dyma'r prif gwestiynau i'w hystyried wrth ddefnyddio P3:

1. Beth sydd angen i chi ei gyflawni a pham?
2. Yng nghyd-destun y 'darlun mawr', beth yw prif sbardunwyr y newid?
3. Sut mae'r sefyllfa bresennol yn ymwneud â'r newid sydd ei angen?
4. Sut mae'r bwlch rhwng lle rydych eisiau bod a lle rydych ar hyn o bryd yn edrych?
5. Beth sy'n achosi'r bwlch o ran pobl, perfformiad a phrosesau?

Pa gamau sy'n rhaid eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau a gwireddu'r amcan cyffredinol?




Yng nghyd-destun P3, wrth drafod perfformiad, pobl a phrosesau, mae'r canlynol yn nodi pa elfennau o'r project a ddadansoddir dan yr amrywiol elfennau:

**Perfformiad:** Dadansoddi a diffinio'r lefel perfformiad gofynnol i gwblhau'r project.

**Pobl:** Ystyried elfennau'r project sy'n gysylltiedig â phobl, er enghraifft lefelau sgiliau a gwybodaeth, capasiti, arweinyddiaeth, swyddogaethau, cymhelliant, rheoli perfformiad, diwylliant sefydliadol, gweithio mewn tîm ac ergonomeg y lle gwaith, etc.

**Proses:** Ystyried elfennau'r project sy'n gysylltiedig â phroses, er enghraifft prosesau mewnol y tîm, prosesau'r brifysgol sy'n effeithio ar y project, systemau ariannol a systemau TG, etc.

Elfen arall o P3 yw adolygu cynnydd ac effaith trwy gydol y project ac ar ôl ei gwblhau. Yn ystod y project, gellir defnyddio'r broses werthuso i sicrhau bod staff yn deall amcanion y project ac yn ymroi i'r project. Ar ddiwedd y project, nod y broses werthuso yw dangos effaith y project, dangos lefel llwyddiant y project ac ymdrin ag agweddau ar y project nad ydynt yn gweithio'n effeithiol.


## DEFNYDDIO’R PECYN CYMORTH

Nod y pecyn cymorth yw rhoi fframwaith a chanllawiau i chi ar gyfer pob adran y gallwch eu defnyddio a'u haddasu i'ch anghenion chi ac anghenion y project. Mae pob adran hefyd yn gofyn cwestiynau i'ch cynorthwyo i ddechrau meddwl am y wybodaeth fydd ei hangen arnoch. Mae rhai adrannau hefyd yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r methodolegau a allai eich cynorthwyo i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Ni ddylid ystyried y rhestrau hyn fel rhestrau llawn a therfynol.

## RHAI AWGRYMIADAU.....

- Mae'r pecyn yn cynnwys cyflwyniad Powerpoint y gallwch ei ddefnyddio i gynnal gweithdy byr i'ch tywys trwy'r fethodoleg. Mae hwn yn gweithio orau pan mae mor ymarferol â phosib, fel y gallech ei ddefnyddio fel cyfarfod cychwynnol y project gyda'ch tîm. Y man cychwyn gorau yw eich arbenigwr rheoli newid sefydliadol ac rydym yn hapus i helpu hefyd - gweler y manylion cysylltu ar y wefan.
- Mae gan JISC ganllawiau defnyddiol ar reoli newid a allai fod yn ddefnyddiol i chi os hoffech ragor o wybodaeth. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi, yn enwedig o ran eich cynorthwyo i ddewis gwahanol ddulliau, i ddadansoddi eich sefyllfa bresennol.
- Ewch i'r adran 'Gwersi a ddysgwyd' ar y dudalen we fel y gallwch ddysgu o brofiadau pobl eraill.

## MODEL P3


PROSES RHEOLI NEWID
GWERTHUSO
DADANSODDIAD SEFYDLIADOL
YMATEB CYCHWYNNOL
ALLANOL
DADANSODDIAD AMGYLCHEDDOL
MEWNOL
DADANSODDI BYLCHAU
POBL
DEFNYDD
DADANSODDI ACHOSION
PROSES
PHERFFORMIAD